# ATODLEN 14

## DIWYGIADAU CANLYNIADOL MEWN PERTHYNAS AG UNO A DADUNO BYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

### *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2)*

1 (1) Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 1 (trosolwg), yn is-adran (4)(f) ar ôl "fel arall" mewnosoder ", a daduno".

(3) Yn adran 37 (asesiadau llesiant lleol), yn is-adran (2) hepgorer "(6) neu".

(4) Yn adran 39 (cynlluniau llesiant lleol)—

(a) hepgorer is-adran (6);

(b) yn is-adran (7)—

(i) yn lle "Yn dilyn hynny, rhaid" rhodder "Rhaid";

(ii) yn lle "wedi hynny o dan yr adran honno" rhodder "o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70)".

(5) Ym mhennawd adran 47, ar ôl "Uno" rhodder "a daduno".

(6) Yn adran 49 (cyfarwyddydau)—

(a) yn is-adran (1)—

(i) ar ôl "neu" mewnosoder "(8) neu adran";

(ii) ar ôl "bwrdd" mewnosoder "neu'r byrddau";

(b) ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(3) Caiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd o'r fath.";

(c) yn y pennawd, ar ôl "uno" mewnosoder ", i ddaduno".

(7) Yn adran 55 (dehongli), yn y diffiniad o "cynllun llesiant lleol" yn lle "neu a ddiwygiwyd ac a gyhoeddwyd fel y'i diwygiwyd o dan adran 44(5)" rhodder ", 44(5) neu 47(6) neu (11)".

(8) Yn Atodlen 3 (darpariaeth bellach ynghylch byrddau gwasanaethau cyhoeddus), ym mharagraff 6(3) (is-grwpiau)—

(a) ym mharagraff (h), ar ôl "44" mewnosoder "neu 47";

(b) ym mharagraff (i), ar ôl is-baragraff (i) (ac o flaen y "neu" sy'n ei ddilyn) mewnosoder—

"(ia) os yw'r bwrdd yn fwrdd unedig o dan adran 47, daduno neu ddaduno yn rhannol o dan adran 47(7),".